# Creu Eich Abwydfa Eich Hun



# Offer

## Byddwch angen:

Mwydod

Jar mawr, glân neu gynhwysydd clir

Hambwrdd plastig

Pridd

Tywod

Graean neu gerrig bach

Dŵr

Hen ddail, planhigion neu flodau

Croen ffrwythau a llysiau

Papur du

Tâp gludiog

Man oer a thywyll (er enghraifft cwpwrdd)

twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 1

Dechreuwch gan olchi a sychu'r jar neu'r cynhwysydd. Mae'n rhaid i'r cynhwysydd fod yn glir er mwyn medru gweld trwyddo. Rhowch y cynhwysydd ar yr hambwrdd plastig er mwyn hwyluso pethau wrth dacluso.



# Cam 2


Arllwyswch raean neu gerrig bach i mewn i'r cynhwysydd – bydd hyn yn helpu i ddraenio unrhyw ddŵr sydd dros ben.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 3

Ychwanegwch haenen o dywod a phridd am yn ail. Dylai pob haenen fod yn 2cm o ddyfnder.  Mae angen tua 5cm o ofod ar dop y cynhwysydd. Chwistrellwch ychydig o ddŵr er mwyn ei gadw'n llaith.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 4

Ychwanegwch mwy o dywod a phridd nes bod y cynhwysydd bron wedi ei lenwi. Pridd ddylai fod ar yr haenen uchaf. Cofiwch adael gwagle ar y top ar gyfer y mwydod a'u bwyd!



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 5

Chwiliwch am fwydod i roi yn yr abwydfa! Rhowch y mwydod yn ofalus ar yr haenen uchaf o bridd.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 6

Nesaf, rhowch y dail, y planhigion a'r blodau a chroen llysiau a ffrwythau drostynt.



# Cam 7


Gosodwch y caead ar y cynhwysydd a gwnewch dyllau yn y caead.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 8

Gludiwch y papur du o gwmpas y cynhwysydd a'i osod mewn man oer a thywyll, er enghraifft tu mewn i gwpwrdd.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 9


Gadewch yr abwydfa am ychydig o ddiwrnodau ac yna ewch i weld beth mae'r mwydod yn wneud! Cofiwch ddal y cynhwysydd yn bwyllog a'i osod yn ofalus ar y bwrdd.



twinkl
ewch i twinkl.cymru

# Cam 10

Ychwanegwch mwy o ddail, ffrwythau a llysiau i'r abwydfa os oes angen. Rhowch y papur du o gwmpas y cynhwysydd a'i ddychwelyd i'r cwpwrdd, wedi i chi orffen edrych ar y mwydod.



ewch i twinkl.cymru


# Awgrymiadau o Gwestiynau am yr Abwydfa

Beth allwch weld?

Beth sydd wedi digwydd i'r haenau gwahanol?

Beth sydd wedi digwydd i'r dail a'r bwyd sydd ar ben y pridd?

A fedrwch chi weld patrymau yn y pridd sydd wedi cael eu creu gan y mwydod?



ewch i twinkl.cymru

# Gofalu am Eich Mwydod

Gofalwch am eich mwydod gan sicrhau eich bod yn cadw cynnwys yr abwydfa'n llaith – nid yn rhy wlyb ac nid yn rhy sych. Nid yw mwydod yn hoffi awyrgylch rhy boeth na rhy oer, felly man oer sydd orau. Gallwch ychwanegu bwyd newydd cyn gynted a bydd y bwyd sydd yno'n barod wedi cael ei fwyta. Mae planhigion, dail a blodau neu fwyd gwastraff yn arbennig i'w ddefnyddio.



ewch i twinkl.cymru